Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3598

4

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.15

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14.34

4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Tata Steel

Dechreuodd yr eitem am 15.26

5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop

Dechreuodd yr eitem am 16.19

6 Cynnig i atal Rheol Sefydlog

Dechreuodd yr eitem am 16.52

NNDM6017 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 7.1 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried cynnig i benodi aelodau'r Comisiwn heb fod yn fwy na 10 diwrnod ar ôl penodi'r Pwyllgor Busnes, er mwyn caniatáu i NNDM6018 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Mehefin 2016.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Cynnig i benodi Comisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 16.56

NNDM6018 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 7.1, yn penodi Joyce Watson (Llafur Cymru), Dai Lloyd (Plaid Cymru), Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig) a Caroline Jones (UKIP Cymru) yn aelodau o Gomisiwn y Cynulliad.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.56

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2016